# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Diwygio Llywodraeth Leol a Datblygu Economaidd

## Cefndir

1. Mae'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*, yn adeiladu ar ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r papur yn cyflwyno cynigion ynghylch fframwaith deddfwriaethol diwygiedig ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad a chyllid Llywodraeth Leol. Mae hynny'n symud ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu yn ei flaen, sef egluro model ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well yng Nghymru, gan ddilyn argymhellion y Comisiwn.

2. Daeth yr ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn i ben ar 28 Ebrill. Mae dros 550 o ymatebion manwl wedi dod i law ac ymatebodd 3166 o unigolion i'r arolwg ar-lein.

3. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd Bil Drafft Llywodraeth Leol yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen eleni. Bydd y Bil yn lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol drwy raglen o drefniadau uno, yn sefydlu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus statudol ac yn cyflwyno'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig ar gyfer Llywodraeth Leol. Disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno i'r Cynulliad ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

## Y ffactorau sy'n ysgogi newid a'r cynigion sydd yn y Papur Gwyn

<u>Y setliad datganoli sy'n newid</u>

4. Pwerau deddfwriaethol cyfyngedig iawn oedd gan y Cynulliad pan gafodd ei sefydlu yn 1999. Yn dilyn refferendwm ym mis Mawrth 2011, y Cynulliad erbyn hyn yw corff deddfu sylfaenol Cymru mewn ystod eang o feysydd polisi cyhoeddus. Mae Deddf Cymru 2015 yn rhoi pwerau pellach i'r Cynulliad yng nghyswllt trethu a benthyca ac mae pleidiau gwleidyddol y DU wedi ymrwymo i ymestyn pwerau'r Cynulliad ymhellach yn dilyn etholiadau'r DU ym mis Mai 2015. Mae'r newid cyfansoddiadol hwn yn cael effaith bellgyrhaeddol ar y modd y caiff Cymru gyfan ei llywodraethu a'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Felly, dyma'r adeg gywir i egluro'r berthynas rhwng Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r Papur Gwyn, *Grym i Bobl Leol*, yn nodi'r canlynol:

   - Rôl Llywodraeth Cymru yw gosod safonau cenedlaethol a chyfeiriad strategol mewn meysydd polisi allweddol megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, gwastraff a datblygu economaidd.
   - Rôl Llywodraeth Leol yw pennu blaenoriaethau lleol a bod yn atebol amdanynt, gan dderbyn y bydd hynny'n arwain at amrywiadau o'r naill le i'r llall.

<u>Paratoi Llywodraeth Leol i wynebu heriau'r genhedlaeth nesaf</u>

5. Mae nifer o fethiannau amlwg wedi digwydd ym maes Llywodraeth Leol, ac mae llawer o feysydd gwasanaeth wedi methu â gwella'n ddigon cyflym yn gyffredinol. Swyddogaeth Llywodraeth Leol yw sicrhau gwasanaethau lleol ardderchog, ni waeth a ydynt yn cael eu darparu'n uniongyrchol ai peidio, ac mae angen i ni ddiwygio'r modd y mae Llywodraeth Leol yn gweithredu. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig:

- Llai o Awdurdodau Lleol sydd â gallu corfforaethol mwy cydnerth.
- Eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r weithrediaeth wleidyddol, cynghorwyr ac uwch-reolwyr.
- Mwy o amrywiaeth o aelodau etholedig er mwyn gwella prosesau gwneud penderfyniadau.
- Ffocws ar wella arweinyddiaeth a chryfhau atebolrwydd.
- Prosesau craffu mwy cadarn sydd â chysylltiad agosach â rôl cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio.

<u>Pwysau o ran cyllid</u>

6. Mae Llywodraeth Leol yn wynebu gostyngiadau yn ei chyllid craidd ond mae'r galw am wasanaethau'n parhau i gynyddu. Ni fydd arbedion effeithlonrwydd graddol yn ddigon a rhaid i gynghorwyr wneud dewisiadau anodd. Rhaid i Gynghorau drawsnewid y modd y maent yn darparu gwasanaethau, gan gynnwys arloesi gyda thechnoleg ddigidol, gwneud mwy o ddefnydd o gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, a rhannu mwy o rym a chyfrifoldeb â chymunedau. Mae'r Papur Gwyn yn nodi'r canlynol:

- Dylai Llywodraeth Leol allu defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i drawsnewid pethau a chodi cyllid ychwanegol.
- Dylid cryfhau gwaith cynllunio corfforaethol a llywodraethu gan Gynghorau, o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Dylid cynyddu capasiti cymunedau i fod yn gyfrifol am asedau a gwasanaethau lleol drwy gryfhau llywodraethu cymunedol a diwygio cynghorau cymuned.
- Mae angen diwygio cyllid llywodraeth leol yn y tymor hwy.

**Diwygio Llywodraeth Leol a Datblygu Economaidd**

7. Mae'r Papur Gwyn yn egluro barn Llywodraeth Cymru mai pwrpas naturiol Llywodraeth Leol yw llunio lleoedd. Mae hynny'n golygu deall anghenion y boblogaeth leol a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n deg er mwyn lleihau annhegwch. Mae hefyd yn golygu sicrhau cynifer o gyfleoedd economaidd ag sy'n bosibl drwy gefnogi swyddi a thwf a sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn gwneud y defnydd gorau o'u grym gwario sylweddol yn yr economi leol.

8. Gall Awdurdodau unigol gyflawni llawer ar eu pen eu hunain ac mewn partneriaeth ag eraill, er enghraifft drwy osod cymalau cymdeithasol mewn contractau caffael, cefnogi

busnesau (gan gynnwys busnesau dielw), hybu amcanion economaidd yn eu cynlluniau datblygu a defnyddio eu pwerau benthyca presennol.

9. Yn ogystal mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â dinas-ranbarthau, drwy sefydlu Byrddau Dinas-ranbarthau yn rhanbarthau Bae Abertawe a Phrifddinas Caerdydd, yn ceisio gwella perfformiad economaidd yr ardaloedd hynny drwy ddull gweithredu mwy integredig, a arweinir gan bartneriaeth, rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae dull tebyg o ymdrin â datblygu economaidd rhanbarthol wedi'i fabwysiadu drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Phartneriaeth y Canolbarth.

10. Mae uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol ddiwygiedig yn cynnig nifer o gyfleoedd newydd:

    - Bydd y pŵer cymhwysedd cyffredinol a diwygiadau cysylltiedig yn rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol fod yn fwy arloesol wrth gefnogi gwaith datblygu ac i wneud hynny gan ddefnyddio ystod ehangach o adnoddau na'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd.

    - Bydd cyfleoedd i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol gynhyrchu gwerth ychwanegol economaidd lleol drwy fodelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau. Nododd adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru enghreifftiau o arfer da a meysydd sy'n cynnig cyfleoedd. Bydd yr adroddiad yr wyf wedi'i gomisiynu gan Keith Edwards yn gwneud rhagor o argymhellion penodol. Mae'r dull gweithredu hwn yn adeiladu ar draddodiad Cymreig o entrepreneuriaeth gymdeithasol drwy ryddhau cwmnïau cydfuddiannol a chydweithredol sy'n darparu gwasanaethau i ymestyn eu gweithgareddau i feysydd cysylltiedig, cael gafael ar ffynonellau ychwanegol o gyllid, yn ogystal â chynnwys defnyddwyr gwasanaeth a chadw gwerth yn y gymuned ar yr un pryd. Mae hanes cymdeithasau tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Cymru yn y gorffennol yn enghraifft o hynny.

    - Bydd gan gynghorau cymuned llai niferus a mwy o faint a grwpiau cymunedol sydd wedi'u grymuso fwy o gapasiti i gynhyrchu gweithgarwch economaidd lleol, er enghraifft, drwy gynnig cyfleoedd o ran gwaith mewn rhai agweddau ar ddarparu gwasanaethau a thrwy gynhyrchu ffrydiau incwm, er enghraifft drwy brosiectau lleol ym maes ynni gwyrdd a byw yn glyfar.

**Casgliad**

11. Caiff y Cyngor ei wahodd i gynnig ei farn am y canlynol:

    - A yw'r Cyngor o'r farn y bydd y diwygiadau hyn yn cefnogi cyfleoedd ac uchelgais economaidd lleol?
    - Pa gamau eraill i gefnogi twf economaidd lleol y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eu hystyried yn rhan o'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol?

**Atodiad: astudiaethau achos o'r defnydd a wneir o Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn Lloegr**

1. Cyngor Dosbarth Newark a Sherwood

Mae Newark a Sherwood yn gymuned sy'n tyfu a bwriedir adeiladu 14,000 o gartrefi newydd yno. Mae gan y gymuned lawer o fusnesau llai o faint y mae'r cyngor am eu helpu i wireddu eu potensial o ran tyfu. Ar ôl ymgynghori â busnesau lleol a rhanddeiliaid eraill, gwelwyd bod y graddau yr oedd cyllid ar gael yn her allweddol. Felly, sefydlodd y cyngor gronfa o £2 filiwn. Enw'r gronfa yw 'Think BIG' (*Business Investment in Growth*) a'i nod yw darparu cyllid ar ffurf benthyciadau i fusnesau lleol sydd â'r potensial i dyfu, os nad ydynt wedi medru cael y cyllid o rywle arall megis y banciau. Gan weithredu ar sail y cyngor a gafwyd gan banel annibynnol o arbenigwyr, yn dilyn cael 20 o geisiadau, rhoddwyd pedwar benthyciad hyd yma sy'n werth cyfanswm o £285,000. Trosiant y busnesau a gynorthwyir yw £672,500 ar gyfartaledd. Mae'r benthyciadau hyn wedi diogelu 40 o swyddi ac mae potensial i greu 43 o swyddi newydd.

2. Cyngor Sir Swydd Hertford

Mae Cyngor Sir Swydd Hertford wedi defnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i ddarparu'r sylfaen ar gyfer cymryd rhan yn y Cynllun Morgeisi Awdurdodau Lleol, gan weithio mewn partneriaeth â mwyafrif cynghorau dosbarth y sir, Lloyds TSB a Chymdeithas Adeiladu Leeds.

Bwriad y cynllun yw cefnogi'r farchnad dai a'r economi leol drwy helpu'n benodol y sawl sy'n weithwyr allweddol a'r sawl sy'n prynu cartref am y tro cyntaf. Mae'r cynllun yn indemnio benthycwyr ac yn galluogi prynwyr i fanteisio ar delerau morgais o 75 y cant gyda blaendal o 5 y cant yn unig, ac mae gweddill yr arian yn dod o'r cynllun indemniad. Mae'r indemniad yn para am bum mlynedd (sef y cyfnod pan geir y risg fwyaf) ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r cyngor yn ennill llog ar swm yr indemniad. Yna, caiff yr arian a'r llog a gronnwyd ei roi'n ôl i'r cyngor. Gan gynnwys £12 miliwn y cyngor sir, mae cynghorau yn Swydd Hertford wedi darparu £16.5 miliwn o gyllid i'r cynllun.

3. Cyngor Dinas Stoke on Trent

Mae Cyngor Dinas Stoke on Trent yn defnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i ddarparu'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer datblygu ystod o fentrau er mwyn hybu'r agenda ynni gwyrdd drwy gwmni daliannol sy'n eiddo i'r cyngor ac er mwyn hybu gwaith adfywio. Mae o'r farn bod medru cael gafael ar ynni cynaliadwy am brisiau y gellir eu rhagweld yn ffactor pwerus o safbwynt denu a chynnal cyflogaeth, sy'n cynnwys datblygu ardal fusnes ganolog newydd. Mae'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn rhoi mwy o hyder i'r cyngor ac i bartneriaid posibl o'r sector preifat a mannau eraill wrth ymrwymo i gytundebau tymor hir.

[cyfieithiadau o astudiaethau achos yn *Empowering councils to make a difference*, Y Gymdeithas Llywodraeth Leol, 2013]